## 1. Manylion

**Teitl y Rôl:** Aelod o'r Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc

**Ymrwymiad Amser:** 3 chyfarfod diwrnod cyfan ar adegau gwahanol o'r flwyddyn. Gallwch fynd i'r cyfarfodydd yng Ngogledd neu Dde Cymru, p'un bynnag sy agosaf i'ch cartref. Yn ystod 2016/2017 bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal fel a ganlyn:

- Gorffennaf 2016 (yn ystod yr wythnos *ysgol/*goleg/waith)
- Hydref 2016 (penwythnos – 1 diwrnod, Sadwrn neu Sul)
- Chwefror 2017 (1 diwrnod yn ystod wythnos hanner tymor)
- Y posibilrwydd o fynd i 4 cyfarfod ychwanegol fel rhan o'r Panel Ymgynghorol Oedolion os byddwch chi'n dewis gwneud hynny.

*Os bydd gofyn i chi gael amser o'r ysgol/coleg, gallwn ni ysgrifennu at eich pennaeth i ofyn caniatâd.

**Dolen gyswllt:** Kath Mattingly/Sarah Griffith, Swyddogion Cyfranogiad yn Nhîm Cyfranogiad Comisiynydd Plant Cymru.

# Disgrifiad o Rôl Aelodau o'r Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc

## 2. Prif ddiben y rôl

- Gweithio fel aelod o Banel Ymgynghorol Pobl Ifanc Comisiynydd Plant Cymru, gan roi cyngor a chefnogaeth i'r Comisiynydd o ran sut mae ei sefydliad yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru ac yn eu cynrychioli.

- Gweithio gyda thîm staff Comisiynydd Plant Cymru i adolygu cynllun gwaith y Comisiynydd bob blwyddyn a rhoi syniadau newydd ac adborth iddi.

- Gweithio gyda thîm staff Comisiynydd Plant Cymru i helpu i ddatblygu'r panel ymgynghorol pobl ifanc ac adolygu sut mae'r grŵp yn gweithio.

## 3. Manyleb Person ar gyfer Aelod o'r Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc

***Sylwch: Does dim rhaid bod gennych chi'r holl sgiliau a gwybodaeth a nodir yma.***

**Sgiliau Dymunol**

- Sgiliau cyfathrebu da er mwyn i chi fedru cymryd rhan mewn trafodaethau a rhannu eich barn
- Sgiliau gweithio mewn tîm, gallu i weithio gyda phobl eraill i gyflawni nod a rennir
- Sgiliau cyfathrebu yn Gymraeg

**Gwybodaeth/Profiad Dymunol**

- Peth profiad blaenorol o gynrychioli pobl eraill, e.e. cyngor ysgol, fforwm ieuenctid
- Profiad o rannu eich barn yn hyderus gyda phobl eraill

- Dealltwriaeth o Gymru a’r materion mae pobl ifanc yn eu hwynebu
- Diddordeb mewn hawliau plant

**Nodweddion personol**

- Llawn cymhelliad ac awyddus i gyfrannu syniadau newydd
- Parchus a charedig at eraill
- Y gallu i fynychu o leiaf 3 chyfarfod y flwyddyn.